

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Tŷ Llidiard / Ward Enfys a Ward
Seren / Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18
Ebrill 2018

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	2
2.	Crynodeb o'n harolygiad	3
3.	Yr hyn a ganfuom.....	5
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	28
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Dŷ Llidiard ar 17 ac 18 Ebrill 2018. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Enfys
- Ward Seren

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys Cyfarwyddwr Clinigol AGIC, rheolwr arolygu AGIC, un rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC, dau o adolygwyr cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan reolwr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005), a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod systemau ar waith er mwyn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn Nhŷ Lliardiard yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin â pharch a charedigrwydd gan y tîm staff
- Defnydd arloesol o dechnoleg er mwyn denu ac annog cleifion i roi adborth am eu profiadau
- Roedd cydlynwyr yn cael eu cyflogi ac yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon ar gyfer cleifion
- Ar y cyfan, canfuom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli mewn modd diogel
- Roedd trefniadau cynhwysfawr ar gyfer llywodraethu'r gwasanaeth yn effeithiol ar waith a oedd yn ystyried y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud ymdrechion pellach i sicrhau bod cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon pan nad yw'r cydlynwyr gweithgareddau yn gweithio
- Y trefniadau ar gyfer amddiffyn preifatrwydd cleifion pan na ellir defnyddio llenni/gorchuddion ffenestri
- Dangosodd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr arolygiad fod angen gwella cyfathrebu rhwng staff a chleifion a'u teuluoedd/gofalwyr
- Mae angen cytuno ar raglen barhaus o gynnal a chadw ac ailaddurno rheolaidd sy'n cael ei chwblhau ar adegau priodol
- Mae'n rhaid i ddogfennau statudol a ddefnyddir mewn achosion o dderbyn gorfodol fod yn unol ag Atodlen 1 y Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidwaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsyniad i Driniaeth) (Cymru) 2008

- Nid oedd hyfforddiant gorfodol pob aelod o'r staff yn gyfredol.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Llidiard yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed y GIG ar gyfer cleifion mewnol. Mae'r uned a adeiladwyd yn bwrpasol wedi'i lleoli ar dir Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Uned rhyw cymysg yw Tŷ Llidiard gydag 19 o welyau¹. Ar adeg yr arolygiad, roedd naw o gleifion, yr oedd pedwar ohonynt ar seibiant cymeradwy o'r uned.

Er ei bod wedi'i lleoli ar dir Ysbyty Tywysoges Cymru, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae Tŷ Llidiard yn cael ei gweithredu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar gyfer cleifion ar draws De Cymru.

¹Er bod gan Dŷ Llidiard 19 o welyau, mae'r uned ond wedi'i hawdurdodi i ddefnyddio 15 o'r gwelyau hyn.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch a chwarteisi gan y tîm staff yn Nhŷ Llidiard.

Er bod cyfleoedd ar gael i gleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, gwnaethom nodi y gellid gwneud rhai gwelliannau yn hyn o beth.

Roedd yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau da i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion. Mae angen rhoi sylw, fodd bynnag, i sut y gall preifatrwydd cleifion gael ei amddiffyn ymhellach pan fo angen symud llenni/gorchuddion ffenestri er budd diogelwch y cleifion.

Er bod gwybodaeth ar gael, roedd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos bod angen gwneud gwelliannau o ran cyfathrebu rhwng y staff, y cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Roedd trefniadau ar waith i ganiatáu i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr roi adborth am eu profiadau. Roedd y rhain yn cynnwys y defnydd arloesol o dechnoleg er mwyn denu ac annog cleifion i roi sylwadau.

Cadw'n iach

Nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn y wardiau i gynghori cleifion ynghylch sut y gallent fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Roedd dau o gydlynwyr gweithgareddau yn gweithio yn yr uned. Dywedwyd wrthym fod rhaglen weithgareddau a gynlluniwyd ar gael saith diwrnod yr wythnos. Roedd cyfleusterau ac offer ar gyfer gweithgareddau a gynlluniwyd a gweithgareddau ad hoc ar gael. Gwelsom fod ystafell sinema llawn offer a oedd yn cynnwys teledu sgrin fawr, chwaraewr DVD a chonsolau gemau. Roedd ystafell gelf a chreffft ddynodedig hefyd, ystafell weithgareddau (gan gynnwys

gemau bwrdd, bwrdd pŵl, ac offerynnau cerdd) a lolfa. Roedd neuadd chwaraeon dan do ac ardal chwaraeon awyr agored ar gael hefyd er mwyn caniatáu i gleifion wneud gweithgareddau corfforol, megis pêl fased a badminton. Roedd y sylwadau a wnaed gan un claf yn dangos nad oedd y staff yn annog y cleifion i ddefnyddio'r manau awyr agored.

Er bod rhaglen weithgareddau yn cael ei harddangos ym mhrif dderbynfa'r uned, nid oedd yn gyfredol. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym and oedd y cleifion fel arfer yn treulio amser yn y dderbynfa ac felly ni fyddent yn gweld y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos.

Dangosodd y sylwadau gan gleifion a'r staff eu bod yn dibynnu ar y cydlynwyr gweithgareddau i drefnu a chynnwys cleifion yn y gweithgareddau, a phrin oedd y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnal pan nad oedd y cydlynwyr yn gweithio. Yn ystod ein harolygiad, canfuom hefyd y gallai'r staff fod wedi gweithredu'n fwy rhagweithiol wrth annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon.

Roedd cleifion o oedran ysgol yn cael eu hannog i fynychu'r ysgol yn yr uned er mwyn parhau â'u haddysg yn ystod eu cyfnod o fod yn glaf mewnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd ar gyfer y canlynol:

- rhoi gwybodaeth hybu iechyd berthnasol i gleifion a manylion o'r gweithgareddau a gynigir
- annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau priodol ac ystyrlon pan nad yw'r cydlynwyr gweithgareddau yn gweithio
- annog cleifion i ddefnyddio'r manau awyr agored gan ystyried eu dymuniadau a'u hanghenion o ran gofal a diogelwch.

Gofal ag urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, gyda thoiled a chyfleusterau ymolchi en-suite. Gwelsom fod rhai o'r cleifion wedi rhoi eu heitemau personol yn eu hystafelloedd gwely er mwyn creu man mwy cartrefol ac wedi'i bersonoli lle y gallent dreulio amser ar eu pennau eu hunain. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn cnocio ar ddrysau eu hystafelloedd gwely cyn mynd i mewn, gan barchu eu preifatrwydd. Roedd gan bob ystafell wely banel tryloyw y gallai'r staff ei ddefnyddio i arsylwi ar gleifion heb amharu arnynt. Roedd y rhain yn

cael eu defnyddio i sicrhau bod cleifion yn ddiogel. Nid oedd gan yr holl ystafelloedd gwely baneli y gellid eu cau er mwyn sicrhau preifatrwydd. Gwnaeth staff yr uned gadarnhau, cyhyd ag yr oedd yn bosib, y byddent yn osgoi defnyddio'r ystafelloedd hyn.

Roedd gan yr uned iard a gardd y gallai'r cleifion eu defnyddio pe baent am dreulio amser yn yr awyr agored. Gwnaethom nodi, fodd bynnag, y gallai cleifion ac ymwelwyr weld i mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion o'r iard. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch staff a gadarnhaodd nad oedd hyn wedi cael ei nodi gan gleifion a/neu eu teuluoedd/gofalwyr fel problem. Gwelsom nad oedd gan un ystafell wely lenni/gorchuddion ffenestri. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal diogelwch y claf a oedd yn defnyddio'r ystafell. Gallai'r trefniant hwn, fodd bynnag, fod wedi amharu ar breifatrwydd cleifion. Hefyd, efallai na fyddai hyn yn cynnig amgylchedd cysgu llonydd gan na fyddai golau'r dydd yn cael ei atal rhag dod i mewn i'r ystafell.

Roedd yr holl gleifion a welsom wedi eu gwisgo'n briodol i gynnal eu hurddas. Gwelsom lawer o enghreifftiau o staff yn bod yn garedig tuag at gleifion ac yn eu trin â pharch. Dywedodd y cleifion y buom yn siarad â nhw hefyd bod y staff yn garedig iddynt.

Canfuom fod cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel gyda'r nod o atal mynediad heb awdurdod at wybodaeth gyfrinachol. Roedd byrddau gwybodaeth yn cael eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth allweddol am gleifion a gallai'r staff weld y rhain yn syth. Roedd y rhain wedi'u lleoli mewn swyddfa gyda mynediad cyfyngedig. Gwelsom fod bleinds yn cael eu defnyddio i orchuddio'r byrddau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion yn well.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd ar gyfer y canlynol:

- ailosod neu drwsio'r paneli tryloyw o fewn drysau
- hyrwyddo preifatrwydd cleifion ac amgylchedd cysgu llonydd pan nad oes ganddynt lenni/gorchuddion ffenestri yn eu hystafelloedd gwely.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau eirioli yn cael ei harddangos a'i chynnig yn y brif dderbynfa. Nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos o ran swyddogaeth AGIC a sut y gallai cleifion gysylltu â ni. Roedd sylwadau gan

ddau o gleifion yn dangos nad oeddent yn gwybod beth oedd eiriolaeth ac nad oeddent yn ymwybodol o'r gwasanaethau eirioli.

Fel y disgrifiwyd o'r blaen, nid oedd gwybodaeth am hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y wardiau ac nid oedd y rhaglen weithgareddau yn gyfredol.

Cadarnhaodd staff yr uned fod cleifion newydd a'u teuluoedd/gofalwyr yn derbyn llyfryn gwybodaeth. Er bod hyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am yr uned, gwelsom nad oedd y wybodaeth mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol yn gyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu'r canlynol:

- manylion cyswllt a gwybodaeth ynglŷn â swyddogaeth AGIC ar gyfer cleifion a'u gofalwyr
- gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am yr uned, ynghyd â'r gwasanaethau eraill a gynigir (e.e. eiriolaeth) i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom hefyd fod y staff yn gwneud ymdrechion i gyfathrebu â chleifion mewn ffordd a oedd yn ddealladwy iddynt. Dangosodd y sylwadau a gafwyd yn ystod yr arolygiad, fodd bynnag, y gallai cyfathrebu rhwng y tîm staff a'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr gael ei wella. Er enghraifft, trosglwyddo gwybodaeth am y camau nesaf ar ôl i glaf gael ei dderbyn i'r uned a chyngor wedi iddo gael caniatâd i ddychwelyd adref.

Nid oedd unrhyw gymhorthion ar gael i helpu cleifion ag anghenion cyfathrebu penodol, er enghraifft system dolen sain neu Braille. Cadarnhaodd staff yr uned y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i gefnogi cleifion ag anghenion cyfathrebu penodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ymhellach rhwng y tîm staff a'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Nid oedd yr holl gleifion yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ar gyfer cleifion anffurfiol²a oedd yn aros ar yr uned ynglŷn â'u hawliau. Dywedwyd i gleifion o'r fath siarad â'r staff nyrsio os oeddent am adael.

Cadarnhaodd staff yr uned fod cyfyngiad ar rai eitemau ar yr uned er budd diogelwch cleifion. Roedd gwybodaeth am gyfyngiadau, megis eitemau a gweithgareddau, wedi'i chynnwys yn y llyfryn gwybodaeth.

Ar adeg ein harolygiad, roedd cyfyngiad ar faint o amser y gallai cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol. Cadarnhaodd yr uwch staff fod y trefniant hwn wrthi'n cael ei adolygu er mwyn caniatáu rhagor o fynediad i gleifion.

Gwelsom fod ystafelloedd ar gael y gallai'r cleifion eu defnyddio i weld eu teulu a'u ffrindiau yn breifat. Roedd fflat hunangynhwysol hefyd ar yr uned y gallai'r cleifion a'u teuluoedd ei ddefnyddio er mwyn treulio amser gyda'i gilydd i ffwrdd o ardaloedd y ward. Mae hwn yn gyfleuster defnyddiol iawn a oedd yn cael ei werthfawrogi gan gleifion a'u teuluoedd yn ôl pob golwg.

Gwrando a dysgu o adborth

²Claf anffurfiol yw rhywun sy'n cael ei drin am anhwylder meddyliol mewn ysbyty ac nad yw'n cael ei gadw o dan y Ddeddf (a elwir weithiau yn glaf gwirfoddol hefyd).

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â sut y gallai cleifion roi adborth neu godi pryder ynglŷn â'u gofal yn cael ei harddangos yn yr uned ac ar gael yn y llyfryn gwybodaeth. Dywedwyd wrthym fod eiriolwr ar gael ac yn ymweld â'r uned bob wythnos. Roedd gwybodaeth am eiriolaeth annibynnol yn cael ei harddangos yn yr uned. Er bod gwybodaeth yn cael ei harddangos, roedd o fewn ardal y dderbynfa yn bennaf. Fel y disgrifiwyd o'r blaen, dywedwyd wrthym nad oedd cleifion yn treulio amser yn yr ardal hon fel arfer.

Roedd gan y bwrdd iechyd weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) a godwyd gan gleifion a/neu eu gofalwyr. Roedd hyn yn unol â 'Gweithio i Wella', sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.

Disgrifiodd yr uwch staff sut yr oeddent yn rhoi cynnig ar ffordd arloesol o ddenu ac annog cleifion i roi adborth gan ddefnyddio dull arolwg ar-lein. Gwelsom fod yr ymatebion yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan yr uwch staff gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gallai'r cleifion roi eu hadborth hefyd drwy holiaduron papur.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom ar y cyfan fod systemau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn gyffredinol yn ôl pob golwg. Mae angen i'r bwrdd iechyd gytuno ar drefniadau priodol i sicrhau bod rhaglen barhaus o gynnal a chadw ac ailaddurno rheolaidd yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau ar adegau priodol.

Canfuom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ond mae angen cymryd camau i ddangos bod meddyginiaethau sydd angen eu cadw'n oer yn cael eu storio ar dymheredd priodol.

Dangosodd y dogfennau cadw statudol fod proses briodol wedi cael ei dilyn i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau cleifion fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'n rhaid i'r aelodau staff sy'n gyfrifol am gwblhau, derbyn, a chraffu ar ddogfennau statudol ar ran y bwrdd iechyd ar yr adeg derbyn o dan y Ddeddf sicrhau bod y ffurflenni rhagnodedig cywir yn cael eu defnyddio yn unol â'r Rheoliadau.³

Canfuom fod gan gleifion Gynlluniau Gofal a Thriniaeth fel sy'n ofynnol yn ôl Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda yn gyffredinol ac yn adlewyrchu parthau'r Mesur.

³Atodlen 1 y Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsyniad i Driniaeth) (Cymru) 2008.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau o ran cyflawnrwydd cynlluniau o'r fath.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr uned wedi'i threfnu ar ddau lawr, ac roedd y ddwy ward wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd mynediad gwastad i'r brif fynedfa a'r wardiau. Roedd lifft cleifion yn cynnig mynediad at y llawr cyntaf. Roedd y trefniadau hyn yn caniatáu i gleifion ac ymwelwyr, gan gynnwys y rhai ag anawsterau symudedd, gael mynediad diogel a rhwydd i'r uned.

Roedd yn ofynnol i ymwelwyr ddod i'r uned drwy'r dderbynfa gan ddefnyddio system intercom. Mae hyn yn helpu i atal pobl anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r adeilad. Roedd mynediad o fewn yr uned yn gyfyngedig yn gyffredinol am resymau diogelwch. Roedd ardaloedd y ward yn eang gydag iardiau a gardd gaeedig.

Er bod yr uned yn cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg oedd yn gyfrifol am lanhau a chynnal a chadw'r adeilad. Yn gyffredinol, roedd yr uned yn ymddangos fel ei bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac roedd systemau ar waith er mwyn adrodd am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw brys iddynt a'u trwsio a'r rhai nad oedd angen rhoi sylw brys iddynt. Roedd angen rhoi sylw i rai manau, er enghraifft, roedd gwaith plastr wedi'i ddifrodi, gwarchodwyr bysedd ar goll ar ddrysau, a rhywfaint o waith addurno yr oedd angen ei gynnal. Yn ogystal â hyn, roedd angen chwynnu'r iardiau, roedd y canopi gwydr wrth y fynedfa yn fudr, ac roedd angen clirio rhannau o'r cwteri.

Esboniodd staff yr uned fod rhaglen dreigl o ailaddurno a gwaith cynnal a chadw. Yn eu barn hwy, fodd bynnag, roedd angen adolygu pa mor aml a wneir y gwaith hwn er mwyn sicrhau amgylchedd diogel a dymunol ar gyfer cleifion a'r staff. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod gan gleifion a oedd yn cael eu hanfon i'w hasesu yn yr uned anghenion gofal a oedd yn aml yn fwy cymhleth o'u cymharu â'r cleifion hynny a anfonwyd pan gafodd yr uned ei hagor gyntaf. Roedd hyn yn golygu bod newidiadau amgylcheddol wedi bod yn angenrheidiol, er enghraifft, gosod drysau ychwanegol. Dywedwyd wrthym ei fod wedi cymryd cryn amser i gwblhau'r gwaith.

Roedd ystafelloedd storio wedi'u cloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a damweiniol gan gleifion ac ymwelwyr i'r uned.

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth dau glaf. Gwelsom fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau er mwyn helpu i nodi anghenion cleifion mewn perthynas â hyrwyddo eu diogelwch a'u llesiant. Er hynny, nid oedd unrhyw gynlluniau ysgrifenedig penodol wedi cael eu datblygu, i amlinellu sut y byddai'r risgiau hyn yn cael eu lleihau a'u rheoli.

Roedd y weithdrefn arsylwi ac ymgysylltu therapiwtig ysgrifenedig a ddefnyddiwyd wedi mynd heibio ei ddyddiad adolygu. Cadarnhaodd yr uwch staff fod y polisi wedi cael ei adolygu yn 2017 ond nid oedd gweithdrefnau llywodraethu'r bwrdd iechyd wedi cytuno arno'n ffurfiol hyd yn hyn. Mae arsylwi ac ymgysylltu therapiwtig yn anelu at hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Cadarnhaodd staff yr uned fod ganddynt fynediad at larymau personol er mwyn hyrwyddo eu diogelwch personol yn y gwaith. Dywedwyd wrthym nad oedd y rhain yn cael eu gwisgo'n rheolaidd gan y staff ac roedd y penderfyniad i'w gwisgo wedi'i seilio ar asesiad risg. Roedd larymau galw ar gael yn yr holl ystafelloedd gwely i'w defnyddio gan gleifion a'r staff.

Rhoddodd staff uwch grynodedb o hyfforddiant staff. Gwnaethom ystyried cydymffurfiaeth â diogelwch tân, iechyd a diogelwch, codi a chario, dadebru a hyfforddiant ar gyfer ymddygiad treisgar neu ymosodol. Roedd amrywiaeth mewn perthynas â chydymffurfiaeth ond roedd y rhan fwyaf o'r staff nyrsio a therapïau yn gyfredol o ran eu hyfforddiant. Gwelsom fod yr holl staff therapïau yn gyfredol o ran hyfforddiant codi a chario a hyfforddiant ar gyfer ymddygiad treisgar neu ymosodol. Roedd angen diweddarau hyfforddiant iechyd a diogelwch y staff meddygol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd ar gyfer y canlynol:

- rhoi sylw i'r materion cynnal a chadw ac ailaddurno a nodwyd yn ystod arolygiad AGIC.
- gweithredu rhaglen barhaus o gynnal a chadw ac ailaddurno i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau ar adegau priodol gan ystyried anghenion y cleifion sy'n aros ar yr uned.
- sicrhau bod unrhyw newidiadau amgylcheddol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn cael eu cwblhau'n amserol

- cytuno'n ffurfiol ar y polisi arsylwi ac ymgysylltu therapiwtig diwygiedig.

Atal a rheoli heintiau

Ni archwiliwyd y safon hon yn drwyadl yn ystod yr arolygiad hwn. Gwelsom fod yr uned yn lân ac yn daclus yn gyffredinol.

Roedd gan bob claf ei ystafell ei hun, gyda thoiled a chyfleusterau ymolchi en-suite, sy'n helpu i hyrwyddo atal a rheoli heintiau.

Maeth a hydradiad

Cadarnhaodd y staff fod gan gleifion ddewis o brydau bwyd y gellid eu dewis o'r fwydlen. Roedd amserau penodol yn ystod y dydd ar gyfer prydau bwyd a byrbrydau. Er bod bwyd a diodydd ar gael drwy gydol y dydd, roedd cleifion yn cael eu hannog i fwyta ar yr amseroedd penodol.

Roedd oergell yn yr ystafell fwyta y gallai'r cleifion ei defnyddio i storio bwyd a diodydd a ddygwyd i mewn o'u cartrefi. Er bod oergell ar gael, roedd teuluoedd yn cael eu hannog i beidio â dod ag eitemau bwyd darfodus i'r uned er mwyn lleihau'r risg o heintiau sy'n deillio o fwydydd sydd wedi mynd heibio eu dyddiad cadw. Roedd cofnodion ar gael i ddangos pryd roedd yr oergell wedi cael ei glanhau a'r cynhwysion wedi cael eu gwirio. Nid oedd hyn wedi cael ei gwblhau'n rheolaidd a gwelsom eitemau'n cael eu storio a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad 'terfyn' neu 'defnyddir erbyn'.

Gwelsom fod asesiadau ynghylch anghenion bwyta ac yfed cleifion wedi cael eu cwblhau. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal wedi cael eu datblygu ynghyd â chynlluniau prydau bwyd unigol fel sy'n briodol er mwyn diwallu anghenion gofal a thriniaeth cleifion.

Roedd adegau pan allai fod angen tiwb trwyn i'r stumog⁴ ar gleifion fel rhan o'u gofal. Roedd y wybodaeth hyfforddi a ddarparwyd gan uwch staff yn dangos bod y rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant o ran sut i osod a rheoli tiwbiau trwyn i'r stumog yn briodol. Dywedwyd wrthym y gallai staff yr uned gael mynediad at gyngor a chymorth gan y staff a oedd yn gweithio ar ward plant ysbyty Tywysoges Cymru gerllaw.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hyrwyddo hylendid bwyd diogel ac effeithiol mewn perthynas â'r oergell a ddarperir ar gyfer cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y ddwy ward ar yr uned ystafelloedd triniaeth dynodedig ar gyfer storio meddyginiaethau. Ar adeg ein harolygiad dim ond yr ystafell ar ward Enfys oedd yn cael ei defnyddio. Esboniodd staff yr uned fod y ddwy ward yn rhannu'r un ystafell driniaeth ar gyfer storio meddyginiaethau ac eitemau eraill. Pan oedd cleifion yn aros ar ward Seren, roedd meddyginiaeth bersonol cleifion yn cael ei storio mewn troli y gellid ei chloi o fewn ystafell driniaeth gloadwy.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel yn yr ystafell driniaeth ar ward Enfys. Er bod meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw'n oer yn cael eu storio mewn oergell feddyginiaethau gloadwy, nid oedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac nid oedd cofnodion yn cael eu cadw. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y meddyginiaethau hyn yn cael eu cadw yn unol â'r tymheredd a argymhellir gan eu gwneuthurwr. Roedd tymheredd yr ystafell driniaeth, fodd bynnag, yn cael ei wirio ac roedd cofnodion ar gael.

Roedd gan y staff fynediad at bolisi a oedd yn anelu at hyrwyddo rheolaeth ddiogel o'r meddyginiaethau ar yr uned. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer archebu a derbyn meddyginiaethau yn effeithiol, gan gynnwys meddyginiaethau sy'n angenrheidiol mewn argyfwng. Roedd staff y fferyllfa ar gael i roi cymorth a chyngor i staff yr uned ynghylch y meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned.

Roedd polisi cyffuriau tawelu'n gyflym cyfredol ar waith. Diben hwn oedd hyrwyddo'r defnydd diogel o feddyginiaeth tawelu.

⁴Mae tiwb trwyn i'r stumog yn diwb cul sy'n cael ei drosglwyddo i'r stumog drwy'r trwyn. Gellir ei ddefnyddio am gymorth maethol tymor byr neu ganolig.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau cyffuriau cleifion a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n llawn i ddangos y meddyginiaethau a roddir gan y staff nyrsio. Roedd manylion adnabod cleifion wedi cael eu cofnodi ynghyd â'u statws cyfreithiol o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael y feddyginiaeth gywir a bod eu hawliau yn cael eu diogelu.

Esboniodd y staff fod siartiau cyffuriau cleifion yn cael eu gwirio drwy gydol y dydd. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod yr holl feddyginiaeth a roddir wedi cael ei llofnodi, neu, pan nad oedd yn cael ei rhoi, yn cofnodi'r rheswm am hyn. Defnyddiwyd y system hon yn bennaf er mwyn nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â chwblhau siartiau cyffuriau ond roedd hefyd yn cynnig cyfle i amlygu a thrafod unrhyw gwestiynau ynglŷn â rhoi meddyginiaeth. Efallai y byddai'n syniad i staff yr uned ystyried gynnal y gwiriadau hyn ar ôl trosglwyddo er mwyn ymateb i unrhyw gwestiynau neu hepgoriadau ar unwaith.

Canfuom fod gan gleifion gynlluniau rheoli meddyginiaeth unigoledig a bod eu meddyginiaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol yn unol ag anghenion gofal cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod y meddyginiaethau y mae angen eu cadw'n oer yn cael eu storio ar dymheredd priodol. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r Hysbysiad Diogelwch Cleifion: PSN 015 / Gorffennaf 2015 Storio meddyginiaethau: Oergelloedd

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd yr uned yn cynnig gofal i blant a phobl ifanc yn unig. Cadarnhaodd yr uwch staff fod gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch y plant. Gwelsom fod y rhain ar gael i'r staff drwy fewnwyd y bwrdd iechyd. Cadarnhaodd y staff y buom yn siarad â nhw fod y fewnwyd wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar a bod y staff yn profi rhai anawsterau wrth geisio dod o hyd i bolisiau a gweithdrefnau.

Roedd y wybodaeth hyfforddi a roddwyd gan yr uwch staff yn dangos bod yr holl staff therapïau a meddygol a'r rhan fwyaf o'r staff nyrsio yn gyfredol o ran hyfforddiant diogelu plant. Roedd y rhan fwyaf o'r staff therapïau a nyrsio yn gyfredol o ran hyfforddiant diogelu oedolion ond roedd angen hyfforddiant diweddarau ar y staff meddygol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Cadarnhaodd y staff fod yr offer argyfwng er mwyn ymateb i argyfwng claf (llewygu) yn cael ei storio mewn bagiau cydio a leolwyd yn yr ystafelloedd

triniaeth ar ward Enfys a Seren. Dywedwyd wrthym, pe bai claf yn llewygu, y byddai staff yr uned yn galw 999 ac yn rhoi cymorth bywyd ar unwaith nes y byddai'r ambiwlans argyfwng yn cyrraedd.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar ward Enfys a gwelsom fod bag cydio ar gael yn yr ystafell driniaeth dan glo. Dangosodd y cofnodion fod gwiriadau beunyddiol wedi cael eu cynnal ar y bag cydio er mwyn sicrhau bod y sêl diogelwch yn gyflawn. Nid oedd gwiriadau'n cael eu cynnal ar eitemau unigol. Dywedwyd wrthym os oedd y sêl heb gael ei hagor, y gallai'r staff dybio bod set lawn o offer ar gael ac yn addas i'w defnyddio.

Roedd y wybodaeth hyfforddi a roddwyd gan yr uwch staff yn dangos bod hyfforddiant dadebru y rhan fwyaf o'r staff nyrsio a therapïau yn gyfredol. Roedd hyfforddiant yr holl staff meddygol yn gyfredol.

Roedd torwyr clymau ar gael yn rhwydd. Roedd y rhain yn cael eu storio ar wahân i'r bagiau cydio. O ystyried y gallai fod angen y torwyr clymau a'r bagiau cydio ar yr un pryd, efallai y byddai'r bwrdd iechyd am ystyried storio'r rhain gyda'i gilydd, yn amodol ar gwblhau asesiad risg priodol. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch staff yn ystod yr arolygiad. Roeddent yn agored i'n sylwadau a gwnaethant gytuno i ystyried yr opsiwn hwn ymhellach.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn cynnig cyfarwyddyd ac arweiniad i'r staff o ran darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y rhain ar gael ar ffurf electronig ar fewnrwyd y bwrdd iechyd ac fel copïau papur ar y wardiau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ansicr ynghylch a oedd y copïau papur yn gyfredol. Nid oedd system anchwiliadwy i ddangos bod y staff wedi darllen a deall diweddariadau i bolisïau.

Mae ein canfyddiadau mewn perthynas â'r trefniadau eraill sydd ar waith a'u heffeithiolrwydd yn cael eu disgrifio drwy gydol yr adran hon - Darparu gofal diogel ac effeithiol.

<p>Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir ganddo i sicrhau bod y staff yn cyfeirio at bolisïau cyfredol.</p>

Cadw cofnodion

Canfuom fod y cofnodion a gedwir yn yr uned yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd y staff yn gwybod lle i ddod o hyd i'r

cofnodion perthnasol ac roeddent yn gallu cyflwyno'r rhain mewn da bryd pan ofynnwyd iddynt.

Ar y cyfan, gwelsom arferion cadw cofnodion da o fewn y sampl o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth a'r cofnodion arsylwi a adolygwyd gennym. Nid oedd y staff wedi nodi eu henwau bob amser yn ogystal â llofnodi ar gyfer cofnodion a wnaed yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Byddai cofnodi enwau yn ei gwneud hi'n haws i nodi'r unigolyn a oedd yn gwneud y cofnod ac mae'n arfer disgwylidig mewn perthynas â chadw cofnodion yn broffesiynol.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i hyrwyddo'r safonau sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion yn broffesiynol ymhellach.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol un o'r cleifion ar ward Enfys.

Roedd y dogfennau ar gael i'w hadolygu ac yn cael eu storio'n ddiogel. Er y gellid cael mynediad at wybodaeth tîm Ddeddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd yn electronig, nid oedd y cyfleuster hwn ar gael o fewn yr uned.

Roedd y dogfennau hyn yn dangos bod proses briodol wedi cael ei dilyn i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau'r claf fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Gwnaethom nodi, fodd bynnag, bod ffurflen anghywir wedi cael ei chwblhau⁵ fel rhan o'r cais i gadw'r claf. Roedd hyn yn golygu nad oedd y rheswm dros gadw'r claf yn ddilys. Cawsom ein hysbysu gan Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl bod ein canfyddiadau a'r mater wedi cael ei ddatrys mewn da bryd ac mewn modd effeithiol.

Er bod y dogfennau yn dangos bod asesiad wedi cael ei gynnal gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy Proffesiynol, nid oedd copi ar gael ar ffeil y claf. Dogfen bwysig yw hon sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol mewn perthynas â'r cais i gadw claf. Eto, gwnaethom hysbysu gweinyddwr y Ddeddf

⁵Roedd ffurflen argymhelliad meddygol statudol Adran 2 mewn perthynas â derbyn ar gyfer asesiad wedi cael ei chwblhau gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig pan, o dan yr amgylchiadau, roedd y cais ar gyfer derbyniad brys o dan Adran 4 o ganlyniad i'r angen brys i dderbyn a chadw'r claf o dan Adran 2 o'r ddeddf a byddai cydymffurfiaeth â'r darpariaethau mewn perthynas â cheisiadau o dan yr adran honno yn golygu oedi annymunol.

Iechyd Meddwl ynghylch ein canfyddiadau er mwyn gwneud trefniadau i roi sylw i hyn.

Nid oedd clercc ar yr uned i gefnogi'r staff i gadw dogfennau cyfreithiol a dogfennau eraill a ddefnyddir ar yr uned yn effeithiol. Byddai penodi clercc y ward sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn helpu i sicrhau bod dogfennau, yn enwedig mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu cwblhau a'u cadw mewn trefn briodol.

Cadarnhaodd staff yr uned fod gwytodaeth ar lafar ac ysgrifenedig ynglŷn ag achos o gadw'r claf yn cael ei rhoi i'r claf. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gan gleifion sy'n cael eu cadw fynediad at wasanaeth eirioli annibynnol yn unol â'u hawliau cyfreithiol.

Roedd copïau o God Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl Cymru 1983 (fersiynau Cymraeg a Saesneg) ar gael yn rhwydd i'r staff, cleifion, perthnasau a phartïon eraill sydd â diddordeb, a chanmolir hyn.

Roedd y wybodaeth hyfforddi a ddarparwyd gan uwch staff yn dangos bod angen hyfforddiant diweddarar ar y rhan fwyaf o'r staff o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl. Disgrifiodd yr uwch staff yr anhawster o ran ceisio cael mynediad at hyfforddiant o'r fath.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gyflawni'r canlynol: sicrhau bod y dogfennau cadw statudol cywir yn cael eu cwblhau gan y staff perthnasol. cefnogi'r staff i gynnal dogfennau cyfreithiol a dogfennau eraill a ddefnyddir ar yr uned yn effeithiol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o ddau o gleifion.

Roedd gan y ddau glaf Gynlluniau Gofal a Thriniaeth fel sy'n ofynnol yn ôl Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda yn gyffredinol ac roedd adrannau gwahanol y cynlluniau yn hawdd eu nodi. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau'r Mesur.

Gwelsom fod asesiadau perthnasol wedi cael eu cwblhau i helpu i lywio a datblygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigoleddig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac yn canolbwyntio ar adferiad y claf. Fel y disgrifiwyd o'r blaen, roedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, fodd bynnag, nid oedd cynlluniau ysgrifenedig penodol wedi cael eu datblygu sy'n amlinellu sut y gallai'r risgiau hyn gael eu lleihau a'u rheoli. Yn ogystal â hyn, nid oedd anghenion cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu yn cael eu nodi. Mae'n bwysig bod anghenion heb

eu diwallu yn cael eu cofnodi fel y gall y rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Canfuom fod y staff yn gwneud ymdrechion i gynnwys cleifion a'u teuluoedd (lle roedd yn briodol) wrth ddatblygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cleifion.

Er bod dyddiadau ar gyfer adolygu'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi cael eu nodi'n glir, roedd y cofnodion yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn dangos nad oeddent wedi cael eu hadolygu erbyn y dyddiad dyledus bob amser. Ar adeg ein harolygiad, roedd adolygiad o'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gyfer un o'r cleifion yn ddyledus.

Roedd cydgysylltydd gofal penodol ar gyfer pob claf fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

Disgrifiodd yr uwch staff anawsterau wrth geisio cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â Chynlluniau Gofal a Thriniaeth gan dimau iechyd meddwl sydd wedi'u lleoli yn y gymuned. Roedd hyn yn golygu o bryd i'w gilydd y byddai angen llunio Cynllun Gofal a Thriniaeth newydd pan oedd cleifion yn cael eu derbyn i'r uned, heb fod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd. Disgrifiwyd hyn fel problem barhaus ac roedd yr uwch staff yn cymryd camau parhaus i gywiro hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol: bod cynlluniau priodol yn cael eu datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau asesiadau risg bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu nodi a'u cofnodi o fewn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu yn unol â'u dyddiadau adolygu a nodwyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd strwythur rheoli ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd eglur. Disgrifiwyd trefniadau cynhwysfawr ar gyfer llywodraethu'r gwasanaeth yn effeithiol a oedd yn ystyried y Safonau Iechyd a Gofal. Canfuom y disgwylir i'r staff gwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Nid oedd hyfforddiant pob aelod o staff yn gyfredol, fodd bynnag, o ran hyfforddiant gorfodol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli lleol ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd eglur.

Mae Tŷ Lliardiard yn darparu gofal ar gyfer cleifion mewnol ac mae'n rhan o rwydwaith gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed De Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys pedair ardal sy'n cynnig lefelau gwahanol o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc. Disgrifiodd yr uwch staff system o gyfarfodydd a oedd yn ffurfio rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer pob ardal. Mae gwybodaeth o'r rhain yn cael ei dwyn ynghyd wedyn a'i rhannu yn ystod cyfarfodydd chwarterol fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer y rhwydwaith. Roedd is-grwpiau hefyd ar gyfer archwilio, diogelu, hyfforddiant, rheoli risg ac iechyd a diogelwch. Dywedwyd wrthym fod y grwpiau hyn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod llywodraethu chwarterol.

Disgrifiwyd nifer o archwiliadau lleol a oedd yn cael eu cynnal er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgaredd mewn perthynas

â rheoli meddyginiaethau, cadw cofnodion, a'r amgylchedd. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos y broses hon.

Mae Tŷ Llidiard yn cymryd rhan yn y cynllun⁶Rhwydwaith Ansawdd CAMHS i Gleifion Mewnol. Mae hwn yn anelu at arddangos a gwella ansawdd gofal seiciatrig cleifion mewnol sy'n blant neu'n oedolion ifanc drwy system o adolygu yn erbyn safonau y cynllun Rhwydwaith Ansawdd CAMHS i Gleifion Mewnol. Mae'r broses hon yn dilyn cylch archwiliad clinigol gyda hunanadolygu ac adolygiad gan gymheiriaid.

Yn ystod ein harolygiad, roedd yr uwch staff yn weladwy ac yn rhoi cymorth i'r tîm staff. Roeddent yn agored i'n harsylwadau hefyd ac yn dangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel sy'n briodol.

Gwnaethom siarad â nifer fach o staff. Dangosodd y sylwadau a gawsom fod diffyg eglurder o bryd i'w gilydd o ran dyrannu dyletswyddau. Roedd hyn yn golygu nad oedd y staff yn glir o ran pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau bod tasgau a oedd yn ymwneud â'r gwaith yn derbyn sylw neu'n cael eu cwblhau. Yn ogystal â hyn, dangosodd y sylwadau er bod y staff yn gwybod enwau'r rheolwyr, nid oeddent yn glir bob amser o ran pwy yr oeddent.

Disgrifiwyd trefniadau priodol ar gyfer adrodd, cofnodi ac archwilio digwyddiadau ynghyd â rhannu'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau a phryderon o'r fath. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:

- sicrhau bod staff yn ymwybodol o swyddogaethau penodol a chyfrifoldebau ei gilydd o ddydd i ddydd

⁶Rhwydwaith Ansawdd CAMHS i Gleifion Mewnol

<https://www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/qualityimprovement/qualitynetworks/childandadolescent/inpatientcamhsqnic.aspx>

- hyrwyddo ymwybyddiaeth y staff o'r rheolwyr a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn ymddangos yn briodol i ddiwallu anghenion asesedig y cleifion a oedd yn aros ar yr uned ar adeg ein harolygiad.

Cadarnhaodd yr uwch staff fod nifer o swyddi gwag ar gyfer staff nyrsio a gwnaethant esbonio bod ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i lenwi'r swyddi hyn. Ar adeg ein harolygiad, roedd y rhan fwyaf o'r swyddi wedi cael eu llenwi ond nid oedd y staff wedi dechrau eu swyddi eto. Roedd y gwaith o recriwtio staff yn cael ei reoli'n ganolog drwy'r bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd yr uwch staff hefyd, pan oedd angen, defnyddiwyd staff asiantaeth a banc er mwyn llenwi unrhyw ddiffygion o ran staffio. Dywedwyd wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio'r un staff er mwyn annog dilyniant gofal i gleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod darpar staff (gan gynnwys staff asiantaeth a banc) wedi cael hyfforddiant sefydlu pan wnaethant ddod i weithio ar yr uned y tro cyntaf. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod staff newydd yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau lleol.

Gwelsom ran o rownd y ward. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a oedd yn rhan o'r uned. Dangoswyd gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol.

Roedd y wybodaeth hyfforddiant a ddarparwyd gan uwch staff yn dangos y disgwylir i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan reolwyr. Ar adeg ein harolygiad roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod cydymffurfiaeth yn amrywio o ddim y cant i 100 y cant. Roedd hyn yn cynnwys staff meddygol, nyrsio a therapïau. Gellir dod o hyd i'n canfyddiadau penodol yn hyn o beth yn yr adran - Darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom hefyd bod system ar gyfer arfarniadau staff. Mae arfarniadau yn helpu i nodi anghenion hyfforddi ac yn cynnig cyfle i'r staff gael adborth ynglŷn

â'u gwaith a'u perfformiad. Roedd cydymffurfiaeth ag arfarniadau staff yn cael ei monitro'n rheolaidd gan reolwyr. Ar adeg ein harolygiad, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r staff nyrsio a therapïau wedi cael arfarniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gefnogi'r staff i gwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd.

Mae angen ystyried gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant dadebru, diogelu, iechyd a diogelwch a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Llidiard

Ward/uned(au): Ward Enfys a Ward Seren

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.	-	-	-	-

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Llidiard

Ward/uned(au): Ward Enfys a Ward Seren

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• darparu gwybodaeth hybu iechyd perthnasol i gleifion a manylion o'r gweithgareddau a gynigir• cynnwys cleifion mewn gweithgareddau priodol ac ystyrion pan nad yw'r cydlynwyr gweithgareddau yn gweithio	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<ul style="list-style-type: none">• Mae angen adolygu fformat cynlluniau rheoli'r ward er mwyn sicrhau bod hyrwyddo iechyd a lles yn cael ei ymgorffori'n glir a'i gynnwys fel rhan o asesiad cyn derbyn• Mae angen cysylltu ag unedau eraill i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r sgriniau maethol a gynigir er mwyn nodi a gweithredu'r rhai mwyaf priodol	Rheolwr y Ward Deietegydd Arweiniol	Cwblhawyd 31.08.18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> annog cleifion i ddefnyddio'r manau awyr agored gan ystyried eu dymuniadau a'u hanghenion o ran gofal a diogelwch. 		<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu grŵp hyrwyddo iechyd wythnosol gyda Deietegydd, Seicolegydd, Nyrs a chleifion Sicrhau bod therapïau/ amserlen ysgol ar gael ar hysbysfwrdd y cleifion Rheolwr y Ward a'r Cydlynnydd Gweithgareddau i adolygu'r amserlen gweithgareddau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ystyrlon ar gael pan nad yw'r bobl ifanc yn gallu mynychu therapïau / ysgol neu pan nad yw'r therapïau/ ysgol yn gweithredu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys- <ul style="list-style-type: none"> -trafodaeth yn ystod cyfarfod cymunedol cleifion i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r rhaglen -sicrhau bod y tîm staff ehangach yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r rhaglen 	<p>Seicolegydd Arweiniol</p> <p>Seicolegydd Arweiniol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>31.08.18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> -defnyddio'r manau awyr agored -dull o fonitro presenoldeb pobl ifanc 		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ailosod neu drwsio'r paneli tryloyw o fewn drysau • hyrwyddo preifatrwydd cleifion ac amgylchedd cysgu llonydd pan nad oes llenni/gorchuddion ffenestri yn eu hystafelloedd. 	4.1 Gofal ag urddas	<ul style="list-style-type: none"> • Paneli gweld i'w gosod o fewn ystafelloedd gwely'r cleifion • Gwneud cais drwy gynllun Rhwydwaith Ansawdd CAMHS i Gleifion Mewnol am gyngor gan unedau eraill ynghylch unrhyw ddatrysiadau arloesol a nodwyd er mwyn gosod rhywbeth yn lle'r llenni pan nad yw'n ddiogel i gael y rhain o fewn ystafelloedd clefion. Os oes unrhyw gynigion posibl ar gyfer Tŷ Lliardiard, dylid rhoi sylw brys i symud ymlaen â'r rhain • Adolygu'r costau ar gyfer gosod bleinds cynwysedig ar ffenestri 	<p>Rheolwr Ardal</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr Ardal</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30.06.18</p> <p>31.07.18</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu:</p>	4.2 Gwybodaeth i gleifion	<ul style="list-style-type: none"> • Llyfrynau / gwybodaeth y gwneir cais amdanynt gan AGIC • Llyfryn gwybodaeth i gleifion Tŷ 	Rheolwr Ardal	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • cleifion a'u gofalwyr â'r manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r wybodaeth ynghylch swyddogaeth AGIC • gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am yr uned, ynghyd â'r gwasanaethau eraill a gynigir (e.e. eiriolaeth) i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr 		<p>Llidiard i'w adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am yr uned, ynghyd â'r gwasanaethau eraill a gynigir (e.e. eiriolaeth) a pharagraff ynglŷn â swyddogaeth AGIC a'r manylion cyswllt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried y posibilrwydd i ddatblygu fideo sy'n cynnig gwybodaeth am yr uned y gellir cael mynediad iddo drwy ddolen ar y wefan. 	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs</p>	<p>31.08.18</p> <p>31.12.18</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ymhellach rhwng y tîm staff a'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyfarfod yn cael ei gynnig i'r holl deuluoedd o fewn 72 awr ar ôl derbyn a chyfarfod adolygu gyda'r claf a'r teulu o fewn pythefnos. Cynhelir archwiliadau ar sail chwarterol. • Bydd grwpiau Gwrthwynebiad Di-drais (NVR) yn parhau i gael eu cynnig i deuluoedd, ac mae'r grŵp nesaf wedi'i gynllunio ar 	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward / Therapydd Teulu</p>	<p>Cwblhawyd/ yn parhau</p> <p>Yn parhau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfer Mehefin 2018 <ul style="list-style-type: none"> Bydd Nyrs â Gofal neu glinigydd dirprwyedig yn cwrdd â theuluoedd cyn seibiant cartref er mwyn trafod cynllun gofal. Fel rhan o'r drafodaeth hon, rhoddir ffurflenni adborth i'w cwblhau gan deuluoedd a'u dychwelyd yn dilyn cyfnod o seibiant cartref 	Rheolwr y Ward	30.06.18
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> rhoi sylw i'r materion cynnal a chadw ac ailaddurno a nodwyd yn ystod arolygiad AGIC gweithredu rhaglen barhaus o gynnal a chadw ac ailaddurno er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau ar adegau priodol gan ystyried anghenion y cleifion sy'n byw ar yr 	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu adroddiad rheolaidd o'r tasgau y gwnaed cais amdanynt, amserlen ar gyfer cwblhau, a'r tasgau nad ydynt wedi'u cwblhau Uwchgyfeirio at Reolwr y Gyfarwyddiaeth pan fydd oedi yn digwydd. Trefnu cyfarfod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i drafod y ddogfen cytundeb lefel gwasanaeth a'r gofyniad i ychwanegu rhagor o fanylion ati e.e. rhaglen cynnal a 	Rheolwr Ardal / Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	30.06.18 31.07.18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>uned</p> <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod unrhyw newidiadau amgylcheddol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol cytuno'n ffurfiol ar y polisi arsylwi ac ymgysylltu therapiwtig diwygiedig. 		<p>chadw ac ailaddurno, amserlen y cytunwyd arni ar gyfer tasgau sydd angen eu cwblhau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae polisi arsylwi diweddaredig bellach wedi cael ei gadarnhau drwy gyfarfod Llywodraethu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac fe'i drafodwyd yn ystod cyfarfod Nyrsys Tŷ Llidiard. Cadarnhad gan yr holl nyrsys drwy ofyn am lofnod unigol i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi diweddaredig 	Rheolwr y Ward	30.06.18
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hybu hylendid bwyd diogel ac effeithiol mewn perthynas â'r oergell a ddarparwyd ar gyfer cleifion.</p>	2.5 Maethiad a hydradu	<ul style="list-style-type: none"> Bydd oergell y cleifion yn cael ei gwirio fel rhan o'r gwiriadau amgylcheddol a bydd cydymffurfiaeth â hyn yn cael ei hadolygu bob mis 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd/ yn barhaus
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i ddangos bod meddyginiaethau y mae angen eu cadw'n oer yn cael eu storio ar dymheredd</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi'n feunyddiol a chydymffurfiaeth â hyn yn cael ei harchwilio bob mis 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd/ yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>priodol.</p> <p>Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r hysbysiad Diogelwch Cleifion: PSN 015 / Gorffennaf 2015</p> <p>Storio meddyginiaethau: Oergelloedd</p>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir ganddo i sicrhau bod y staff yn cyfeirio at bolisiau cyfredol.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y staff yn llofnodii gadarnhau eu bod yn ymwybodol o bolisiau yn ystod hyfforddiant ymsefydlu. Bydd bolisiau newydd/ diweddaredig yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff, eu cyhoeddi mewn manau'r staff a'u hychwanegu at y gyriant a rennir lle mae'r holl bolisiau yn cael eu cadw. • Bydd yn ofynnol i'r holl bolisiau newydd/ diweddaredig gael eu llofnodi gan yr holl staff er mwyn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o hyn. 	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Uwch Nyrs, Clinigydd Arweiniol, Therapydd Arweiniol</p>	<p>Cwblhawyd/ yn parhau</p> <p>Cwblhawyd/ yn parhau</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i hyrwyddo'r safonau sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion yn</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd nodyn ysgrifenedig yn cael ei rannu â'r holl staff i gadarnhau'r gofyniad i ysgrifennu enwau'n glir o fewn Cofnodion 	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>30.06.18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
broffesiynol ymhellach.		Meddygol. <ul style="list-style-type: none"> Mae angen trefnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff mewn perthynas â chadw cofnodion Bydd nodiadau yn cael eu harchwilio bob 6 mis Gweithio gyda Gwybodeg parthed: gweithredu cofnodion digidol 	Seicolegydd Arweiniol Rheolwr y Ward Uwch Nyrs	31.08.18 31.08.18/ yn barhaus 31.03.19
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd ar gyfer y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod y dogfennau cadw statudol cywir yn cael eu cwblhau gan y staff perthnasol cefnogi'r staff i gynnal dogfennau cyfreithiol a dogfennau eraill a ddefnyddir ar yr uned yn effeithiol. 	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Nyrs â Gofal ar y sifft yn gwirio gwaith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer derbyniadau newydd (<i>gweler y camau gweithredu isod parthed:Hyfforddiant y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer staff</i>) Symud ymlaen â'r cynnig i glerc y ward gynorthwyo â gwaith papur a phrosesau 	Y Nyrs â Gofal Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Cwblhawyd/ yn barhaus 31.07.18
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu	Monitro'r Mesur	<ul style="list-style-type: none"> Bydd asesiad risg Rhwydwaith 	Uwch-nyrs	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>manyllion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cynlluniau priodol yn cael eu datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau o asesiadau risg • bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu nodi a'u cofnodi o fewn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth • bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu'n unol â'u dyddiadau adolygu a nodwyd. 	Iechyd Meddwl	<p>Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru yn cael ei ddarparu wrth dderbyn neu mewn achosion brys o fewn dau ddiwrnod, ac atgoffir y sawl sy'n atgyfeirio ynghylch y gofyniad hwn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd asesiad risg Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru unigol yn cael ei gwblhau gan Weithiwr Allweddol wrth dderbyn, a bydd yn cynnwys cynlluniau eglur er mwyn rheoli a lleihau risgiau, i'w hadolygu a'u trafod yn ystod cyfarfodydd wythnosol Timau Amlddisgyblaethol • Bydd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau drwy atgyfeirio timau cymunedol wrth dderbyn neu o fewn pythefnos ar gyfer cleifion nad yw'r gwasanaethau hyn yn eu hadnabod. Bydd timau cymunedol yn cael eu hatgoffa o'r cyfrifoldeb hwn. 	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Cwblhawyd/ yn barhaus</p> <p>30.06.18</p> <p>30.06.18</p> <p>30.06.18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad asesiad claf, o fewn pythefnos i'wdderbyn. Bydd timau cymunedol yn cael eu hatgoffa o'r gofyniad hwn. • Bydd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu, bob pedair wythnos yn gyffredinol, a bydd timau cymunedol yn cael eu hatgoffa o'r cyfrifoldeb hwn. • Bydd taflen archwilio yn cael ei chwblhau ar gyfer pob claf a'i hadolygu yn ystod pob cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. 	Arweinydd Seicoleg	31.07.18
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u 	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	<ul style="list-style-type: none"> • Penodi cydlynnydd sifftiau i sicrhau bod yr holl staff yn glir o ran eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo ar gyfer 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol o ddydd i ddydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyrwyddo ymwybyddiaeth staff o'r rheolwyr, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. 		<p>pob sifft, a dylid cwblhau ffurflen yn ystod pob cyfarfod i gadarnhau hyn a gosod nodyn ysgrifenedig ar fwrdd gwybodaeth y staff yn swyddfa'r nyrsys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd siart sefydliadol yn cael ei harddangos yn yr ystafell staff gyda ffotograffau o'r uwch staff 	Rheolwr Ardal	31.07.18
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i gynorthwyo'r staff i gwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddogaeth.</p> <p>Mae'n rhaid ystyried gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant dadebru, diogelu, iechyd a diogelwch a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>	7.1 Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> • Sefyllfa bresennol yn ôl hyfforddiant a gofnodir yn electronig (ar 01.06.18)- <ul style="list-style-type: none"> - Dadebru – 86% - Iechyd a Diogelwch – 84% - Diogelu plant – 96% • Bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro, ei thrafod, a'i huwchgysgu drwy holl Adolygiadau Datblygiad Personol aelodau staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth • Bydd log o'r hyfforddiant staff yn 	<p>Rheolwr y Ward, Seicolegydd Arweiniol</p> <p>Rheolwr Ardal</p>	<p>Yn barhaus</p> <p>Yn barhaus</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cael ei ddiweddarau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu â'r adrannau hyfforddiant ar gyfer dyddiadau a threfnu lle i'r staff fynychu'r sesiynau sydd ar gael • Cysylltu â swyddfa'r Ddeddf lechyd Meddwl ynghylch darparu dyddiadau hyfforddiant • Bydd proses uwchgyfeirio at yPennaeth Nyrsio pan nad oes modd rhyddhau'r staff ar gyfer hyfforddiant a drefnwyd oherwydd pwysau yn y gwasanaeth yn cael ei chreu a'i gweithredu a'i harchwilio yn barhaus. 	<p>Rheolwr Ardal</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30.06.18</p> <p>30.06.18</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Chris Coslett

Swydd: Rheolwr y Gyfarwyddiaeth

Dyddiad: 12.06.18